Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

# Cynllunio Digwyddiadau



# Cynllunio Eich Digwyddiad: Cwestiynau Allweddol

## "Pwy, Beth, Ble a Phryd"

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Beth yw fformat a rheolau'r gystadleuaeth?
- Sut fydd hi'n cael ei hysbysebu a'i marchnata?
- A fydd arnoch chi angen cymorth gan gorff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon (NGB)?
- Sut fyddwch chi'n recriwtio swyddogion a gwirfoddolwyr i helpu?
- A fydd angen i'r cyfranogwyr/staff aros dros nos?

# Y camau cyntaf

- Ewch ati i greu cynllun eich digwyddiad
- Penodwch Reolwr Digwyddiad (NI DDYLAI hwn fod yn rhywun sydd â rôl arall yn y digwyddiad neu mewn coleg/canolfan sy'n cymryd rhan)
- Penderfynwch ar leoliad
- Dewiswch ddyddiad addas (a dyddiad wrth gefn rhag ofn y bydd rhaid gohirio)
- Lluniwch amserlen y digwyddiad a'r amseroedd dechrau/gorffen (a chynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd amgylchiadau na chafodd eu rhagweld ar y dydd)
- Cyfrifwch faint o bobl a allai fod yn bresennol: (cyfranogwyr, staff, swyddogion, gwylwyr)
- Penderfynwch ar lefel y Cymorth Cyntaf angenrheidiol

# Cynllunio digwyddiadau

- Mae sampl o gynlluniau digwyddiadau a rhagor o wybodaeth yn y Pecyn Cymorth




- Cofiwch – ni ddylai Rheolwr y Digwyddiad fod ag unrhyw gyfrifoldebau eraill ar y dydd – mae hyn yn ei alluogi i grwydro a datrys problemau'n effeithiol (mae cael cynorthwyydd hefyd yn arfer da)

# Dewis Lleoliad 1

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Cyfleusterau coleg yw'r lleoliad hawsaf i'w ddewis. Bydd angen i chi feddwl a yw'n ddigon mawr i'r digwyddiad ac i'r niferoedd sy'n cymryd rhan

Ymhlith y manteision y mae'r ffaith ei bod hi'n debygol y bydd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus eisoes wedi'i drefnu, a bydd canllawiau a thempledi ar gyfer asesu risg a diogelu eisoes ar gael. Mae goblygiadau costau i hyn hefyd (mae'n debygol mai dyma fydd yr opsiwn mwyaf effeithiol o ran cost).

# Dewis Lleoliad 2

- Dewis arall fyddai safle clwb, awdurdod lleol neu brifysgol

Ymhlith manteision y rhain y mae'r ffaith y gallen nhw gynnig cyfleusterau ac arwynebau chwarae arbenigol. Efallai hefyd y bydd ganddyn nhw le i fwy o bobl.

Ymhlith yr anfanteision y mae'r ffaith ei bod hi'n annhebygol y bydd gennych chi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn barod, a bydd disgwyl i chi baratoi eich asesiad risg eich hun, ynghyd â chreu cynllun i'ch digwyddiad (ac o bosibl Gynllun Meddygol) ymhell ymlaen llaw. Mae goblygiadau costau hefyd (mae'n debygol o fod yn fwy drud ac efallai y bydd angen yswiriant arnoch chi rhag ofn y bydd angen canslo).

Os byddwch chi'n trefnu drwy'r awdurdod lleol ar gyfer 500+ o bobl, bydd angen cymeradwyaeth gan y Grŵp Cynghori am Ddiogelwch hefyd.

# Lefelau Cymorth Cyntaf / Gwasanaeth Meddygol 1

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Sefydliadau gwirfoddol yw'r trefniant mwyaf sylfaenol, ac maen nhw'n addas i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau (Ambiwlans St John a'r Groes Goch yw'r rhai mwyaf adnabyddus):

Ambiwlans St John Cymru

Y Groes Goch

# Lefelau Cymorth Cyntaf / Gwasanaeth meddygol 2

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Y lefel nesaf yw timau achredededig o ymatebwyr cyntaf. Bydd y rhain yn cynnig lefel uwch o sgiliau ac arbenigedd yn ogystal â cherbydau arbenigol gyda'r gallu i ddarparu ar gyfer digwyddiadau mewn amrywiaeth o amgylchiadau:

Gwasanaeth Ambiwlans Pegasus

pegasusambulanceservice@hotmail.com

- Y lefel uchaf sydd ar gael yw parafeddygon, gyda'r holl allu a'r lefel arbenigedd y byddech chi'n ei ddisgwyl:

Dylai'ch darparwr hefyd helpu NEU baratoi'r Cynllun Meddygol y bydd angen i chi'i ddarparu

# Cymorth ar gyfer eich Digwyddiad / Twrnament

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Gyda phwy y bydd angen i chi drafod yn eich coleg? Y rheolwr llinell, y rheolwr iechyd a diogelwch, yr arweinydd diogelu neu'r Uwch Dîm Arwain efallai
- Gall Chwaraeon Colegau Cymru gynnig cymorth a chyngor
- Gall Association of Colleges (AoC) hefyd helpu, yn enwedig os yw'ch digwyddiad yn rownd ragbrofol ar gyfer mynd ymlaen i gystadleuaeth Genedlaethol
- Efallai y bydd corff llywodraethu cenedlaethol y gamp yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol arall, ac yn gallu cynnig cymorth uniongyrchol ar gyfer recriwtio swyddogion cymwys a chanllawiau am feddalwedd canlyniadau

# Iechyd a Diogelwch ac Asesu Risg

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Bydd Tîm Iechyd a Diogelwch eich coleg yn gallu rhoi cymorth ac arweiniad gwerthfawr iawn
- Gallan nhw hefyd ddarparu templedi i baratoi asesiad risg manwl ynghyd â chyngor am yswiriant
- Ar gyfer digwyddiadau nad ydyn nhw'n cael eu cynnal ar gampysau colegau, byddan nhw hefyd yn helpu ac yn rhoi arweiniad, ynghyd â chysylltu â darparwyr trydydd parti ar eich rhan

Bydd angen i ddarparwyr trydydd parti weld tystiolaeth o'ch yswiriant, a byddan nhw'n aml yn gofyn am o leiaf £10m mewn Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

# Diogelu 1

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Bydd Arweinydd Diogelu eich coleg yn rhoi arweiniad yn y maes hwn
- Os yw eich digwyddiad ar safle coleg, rhaid i chi ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r coleg yn y maes hwn
- Cofiwch y bydd angen i chi edrych ar ddogfennau amddiffyn plant YN OGYSTAL â phrosesau diogelu oedolion ILL DAU
- Bydd gan y rhan fwyaf o ddogfennau polisi siartiau llif ar un dudalen a fydd yn eich tywys drwy'r pryderon/digwyddiadau posibl

Mae sampl o ddogfennau/siartiau llif yn y Pecyn Cymorth

# Diogelu 2

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

- Os NAD yw eich digwyddiad ar safle coleg, rhaid i chi ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r trefnwyr yn y maes hwn
- Cofiwch y bydd angen i chi edrych ar ddogfennau amddiffyn plant YN OGYSTAL â phrosesau diogelu oedolion ILL DAU
- Bydd gan y rhan fwyaf o ddogfennau polisi siartiau llif ar un dudalen a fydd yn eich tywys drwy'r pryderon/digwyddiadau posibl

Mae sampl o ddogfennau/siartiau llif yn y Pecyn Cymorth

# Diogelu 3

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport


- Rhagor o wybodaeth a chanllawiau am Amddiffyn a Diogelu Plant: Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon yr NSPCC

- Diogelu Oedolion: Ann Craft Trust

Bydd y rhain yn rhoi llawer iawn o gymorth ac arweiniad ynghyd ag adnoddau i'w lawrlwytho

# Yn olaf, cofiwch...

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport



Rob Baynham
**Rheolwr Lles Actif a Chwaraeon**

Rob.Baynham@ColegauCymru.ac.uk

Chwaraeon.Colegau.Cymru